**Carol:** *Wele Cawsom y Meseia*

**Wele cawsom y Meseia,**
**cyfaill gwerthfawroca' 'rioed;**
**darfu i Moses a'r proffwydi**
**ddweud amdano cyn ei ddod:**
**Iesu yw, gwir Fab Duw,**
**Ffrind a Phrynwr dynol-ryw.**

**Hwn yw'r Oen, ar ben Calfaria
aeth i'r lladdfa yn ein lle,
swm ein dyled fawr a dalodd
ac fe groesodd filiau'r ne';
trwy ei waed, inni caed
bythol heddwch a rhyddhad.**

**Dyma gyfaill haedda 'i garu,
a'i glodfori'n fwy nag un:
prynu'n bywyd, talu'n dyled,
a'n glanhau â'i waed ei hun:
frodyr, dewch, llawenhewch,
diolchwch iddo, byth na thewch!**

*Dafydd Jones 1711-1777*